

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo gynadledda drwy Zoom	Sarah Beasley Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: 6 Mehefin 2024	0300 200 6565
Amser: 09.30	Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.00 – 09.30)

- 1 **Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth gyda'r
Gweinidog Gofal Cymdeithasol**
(09.30–10.30) (Tudalennau 1 – 44)
Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru – Llywodraeth Cymru
Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl, y Gyfarwyddiaeth
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth Cymru
Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwella, y Gyfarwyddiaeth
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth Cymru
Anthony Jordan, Pennaeth Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth, y
Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth
Cymru

Briff Ymchwil

Papur 1 – Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Crynodeb o'r Bil

- 3 **Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol**
(10.30–11.00) (Tudalennau 45 – 65)



Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru – Llywodraeth Cymru

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl, y Gyfarwyddiaeth

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth Cymru

Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwella, y Gyfarwyddiaeth

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth Cymru

Anthony Jordan, Pennaeth Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth, y

Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio – Llywodraeth

Cymru

Briff Ymchwil

Papur 2 – Llywodraeth Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 5 a 8 o'r cyfarfod heddiw

(11.00)

5 Sesiwn graffu gyffredinol a sesiwn dystiolaeth ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) gyda'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol: trafod y dystiolaeth

(11.00–11.20)

Egwyl (11.20 – 11.30)

6 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

(11.30 – 12.30)

(Tudalennau 66 – 78)

Jayne Bryant AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a Blynyddoedd

Cynnar – Llywodraeth Cymru

7 Papurau i'w nodi

(12.30)

7.1 Llythyr gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, ynghylch Carchar y Parc

(Tudalennau 79 – 80)

7.2 Ymateb oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyn Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Tybaco a Fêps

(Tudalennau 81 – 83)

7.3 Llythyr at Brif Weinidog Cymru oddi wrth Grŵp Cydweithredol Iechyd Plant Colegau Brenhinol Cymru ynghylch gwella iechyd plant

(Tudalennau 84 – 87)

7.4 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Busnes at Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch cylchoedd gorchwyl pwyllgorau

(Tudalennau 88 – 90)

7.5 Gwybodaeth Atodol gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'r Cadeirydd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 15 Mai 2024

(Tudalennau 91 – 98)


8 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

(12.30–12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Mai 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: @SeneddYmchwil
Ymchwil y Senedd: ymchwil.senedd.cymru
Tanysgrifiwch: Cylchlythyr

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Mai 2024

Awdur:

Amy Clifton and Sian Thomas



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Ciplwg ar y Bil	3
3. Crynodeb o'r darpariaethau	5

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)** ar 20 Mai 2024.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau er mwyn:

- cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu i blant sy'n derbyn gofal;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun digonolrwydd i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â llety i blant sy'n derbyn gofal, ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o lety a ddarperir gan endidau nid-er-elw, naill ai o fewn eu hardaloedd neu'n agos iddynt, i ddiwallu anghenion y plant hynny;
- galluogi Taliadau Uniongyrchol i gael eu cyflwyno ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG; a
- gwneud diwygiadau i sicrhau y gall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") weithredu yn llawn ac yn effeithiol.

Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil yw Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol.

Diben a nodau'r darpariaethau yn y Bil

Mae **Memorandwm Esboniadol y Bil (y Memorandwm)** yn nodi "Drwy'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i Diweddarau, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio gwella gofal cymdeithasol, a'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ymhellach."

Mae'r Memorandwm yn dweud bod yr ymrwymiad i **'roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal'** yn rhan glir o weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer newid y system gyfan. Y nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal (gan ddechrau gyda gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau maethu) yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr ymrwymiad i **'wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol'**. Yn ôl y Memorandwm, mae'r galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu er mwyn "mynd

i'r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebwr gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael". Bwriad y newidiadau arfaethedig yw sicrhau bod gan unigolion lais a rheolaeth gref dros eu gofal, p'un a yw'r gofal hwnnw'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r Memorandwm yn dweud y dylai'r newidiadau arwain at fwy o unigolion yn cytuno i gael asesiadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP), heb risg o golli'r hawl i daliadau uniongyrchol, ac felly bod eu hanghenion iechyd cymhleth yn cael eu rheoli'n well.

Bydd y Bil hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau i'r drefn o **reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol**, er mwyn helpu o ran rheoleiddio a chefnogi'r gweithlu i weithredu'n fwy effeithiol. Mae'r Memorandwm yn dweud bod y gwelliannau arfaethedig yn anelu at fynd i'r afael â materion ac anghysondebau penodol yn Neddf 2016 i gryfhau ymarferoldeb y fframwaith rheoleiddio a chynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoleiddio.

Mae'r diwygiadau hyn yn effeithio ar nifer o feysydd, gan gynnwys rhoi pwerau newydd i AGC ofyn am wybodaeth gan ddarparwyr anghofrestredig, a rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru estyn y diffiniad cyfreithiol o weithwyr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant.

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 20 Mai 2024.

Mae'r Bil ar ei hynt drwy **broses ddeddfwriaethol y Senedd**. Bydd y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn ymgynghori ar y Bil ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth pellach dros y misoedd nesaf.

Mae'r Memorandwm yn cynnwys crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil, a gweithdrefnau craffu'r Senedd y byddant yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r Memorandwm hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhoi crynodeb o gostau a manteision amcangyfrifedig y Bil.

Sut i ddefnyddio'r Crynodeb o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ac is-adran o'r Bil. Cynlluniwyd y ddogfen i dynnu sylw at y prif ddarpariaethau ac i'ch cyfeirio at fanylion pellach.

Mae rhagor o sylwadau am bob adran o'r Bil yn y **Nodiadau Esboniadol yn Atodiad 1 y Memorandwm**.

2. Ciplwng ar y Bil

Mae 30 o adrannau i'r Bil, wedi'u trefnu'n dair Rhan, ac mae iddo ddwy Atodlen.

Rhan 1 - Gofal cymdeithasol:

Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant

- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant (adrannau 2 – 9)
- Swyddogaethau awdurdod lleol mewn cysylltiad â llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (adrannau 10 – 13)

Pennod 2: Diwygiadau yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol

- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol (adrannau 14 – 16)
- Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: gwybodaeth ac arolygiadau (adran 17)
- Gweithwyr gofal cymdeithasol: cofrestru ac addasrwydd i ymarfer (adran 18 – 19)
- Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (adrannau 20 – 21)
- Gofal cymdeithasol: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol (adrannau 22)

Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud "mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol" mewn perthynas â'r Rhan hon, yn ôl y Nodiadau Esboniadol.

Rhan 2 - Gofal iechyd

- Trosolwg o Ran 2 (adran 23)
- Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd (cyflwyno taliadau uniongyrchol fel rhan o GIP) (adrannau 24 – 25)
- Darparu gwasanaethau iechyd gan awdurdodau lleol (adran 26)

Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud "mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol" mewn perthynas â darpariaethau Rhan 2, yn ôl y

Nodiadau Esboniadol.

Rhan 3 - Cyffredinol

- Dehongli cyffredinol (adran 27)
- Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc. (adran 28)
- Dod i rym (adran 29)
- Enw byr (adran 30)

3. Crynodeb o'r darpariaethau

Rhan 1 - Gofal cymdeithasol

Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant

Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o Bennod 1:

- **Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant:** diwygio Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i gyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad").
- **Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â llety i blant sy'n derbyn gofal:** dyletswyddau i sicrhau digon o lety; dyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol; ceisiadau i Weinidogion Cymru i gymeradwyo 'lleoliad atodol' os na fydd lleoliad arall ar gael.

Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant

Mae adran 2 yn diwygio Deddf 2016 i fewnosod darpariaeth newydd sy'n diffinio ystyr "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad" at ddibenion cyfyngu ar elw gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

Mae adran 3 yn diwygio Deddf 2016 i nodi **gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad**. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fodloni dau amod, sef bod "amcanion neu ddibenion y person yn ymwneud yn anad dim â... lles plant, neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru"; a bod yn rhaid i'r darparwr berthyn i un o'r categorïau o endidau "nid-er-elw" a nodir ar wyneb y Bil.

Mae adran 4 yn mewnosod Atodlen newydd yn Deddf 2016 i nodi **trefniadau trosiannol** ar gyfer darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad sydd eisoes wedi eu cofrestru (a gofrestrwyd cyn cyflwyno'r gofynion 'nid-er-elw' newydd).

Mae Adran 5 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â **chaniatáu neu wrthod cofrestriad**, i adlewyrchu'r gofynion 'nid-er-elw' newydd.

Mae adran 6 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 2016 drwy gyflwyno ystyriaeth newydd y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth benderfynu a yw darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn berson addas a phriodol. Mae'r ystyriaeth newydd hon yn ymwneud â **'trefniadau ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad'**. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru bellach roi sylw i 'drefniadau ariannol afresymol neu anghymesur' y mae darparwr gwasanaeth sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn ymrwymo iddynt; ac a yw'r trefniant ariannol hwnnw yn tanseilio gallu'r darparwr gwasanaeth i 'ddilyn ei amcanion neu ei ddibenion' yn ymwneud â 'lles plant neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru'.

Mae Adran 7 yn diwygio Deddf 2016 i osod gofynion newydd ynghylch yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn **natganiad blynyddol** darparwr gwasanaeth. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gwybodaeth, a ragnodir gan Weinidogion Cymru, am dystiolaeth sy'n berthnasol i'r 'prawf person addas a phriodol'. Nid yw'r gofynion yn berthnasol i ddarparwyr y cyfeirir atynt yn y Memorandwm fel 'darparwyr etifeddol', y mae 'trefniadau trosiannol' yn berthnasol iddynt.

Mae adran 8 yn diwygio Deddf 2016 i gynnwys darpariaethau newydd ynghylch amrywio neu ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.

Mae adran 9 yn cyflwyno gofyniad newydd bod rhaid i gofnodion yn y gofrestr darparwyr gwasanaethau ddangos bod y darparwr yn bodloni'r prawf 'person addas a phriodol' neu ei fod wedi'i eithrio yn ystod y cyfnod trosiannol a ddiffinnir yn Atodlen 1A.

Swyddogaethau awdurdod lleol mewn cysylltiad â llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae **adran 10** yn diwygio adran 75 o Ddeddf 2014 i bennu bod rhaid i awdurdod lleol gymryd **"pob cam rhesymol i sicrhau" llety** ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hytrach na "chamau sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol," fel y nodir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2014. O dan is-adran 1, mae'n ofynnol i'r llety hwn fod "o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi" yn hytrach na'r gofyniad presennol iddo fod "yn ardal yr awdurdod". Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod hyn yn "galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd." Mae'r Nodiadau Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud bod y diwygiad hwn yn "cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan

wahanol o ardal yr awdurdod lleol.”

Mae adran 11 yn diwygio Deddf 2014 i roi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i **lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol** cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cynllun nodi'r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan adran 75(1) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd gan adran 10 o'r Bil). Rhaid iddo hefyd gynnwys amcangyfrif o nifer y plant y bydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt na fydd modd eu lleoli o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014; asesiad o'r llety sydd ar gael ac i ba raddau y mae hynny'n bodloni'r gofynion perthnasol; ac i ba raddau y mae'r llety hwnnw o fewn ardal yr awdurdod lleol, neu'n agos iddi. Rhaid i'r cynllun fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau. Cyn cyhoeddi'r cynllun, rhaid i awdurdod lleol lunio drafft a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae adran 11 hefyd yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os na chymeradwyir y cynllun.

Mae adran 12 yn diwygio'r ddyletswydd bresennol yn Neddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol i **awdurdodau lleol adrodd i Weinidogion Cymru yn flynyddol** i adlewyrchu'r ddyletswydd i sicrhau llety. Rhaid i'r adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleol gynnwys gwybodaeth am sut y mae camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno wedi cynyddu, neu sut y disgwyllir iddynt gynyddu, a faint o lety diogel sydd ar gael. Rhaid iddo hefyd nodi nifer y ceisiadau a wnaeth yr awdurdod lleol am gymeradwyaeth i leoli plant mewn 'lleoliadau atodol' o dan adran 13 o'r Bil.

Mae adran 13 yn nodi'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya yn “y lleoliad mwyaf priodol”. Yn y Nodiadau Esboniadol, dywed y gall lleoliad fod mewn “mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)”; nid oes cyfeiriad o'r fath yn Neddf 2014 nac yn y Bil. Rhaid i awdurdodau lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth i leoli plentyn sy'n derbyn gofal yn rhywle ac eithrio endid 'nid-er-elw' - y cyfeirir ato fel “**lleoliad atodol**”. Mae'r Bil yn nodi'r camau y mae rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd os yw cais am “lleoliad atodol” yn cael ei wrthod gan Weinidogion Cymru. Gall yr awdurdod lleol ailgyflwyno'r cais, gan esbonio'r rhesymau penodol os ydynt yn dal i ystyried y byddai lleoli'r plentyn gydag endid 'nid-er-elw' yn anghyson â phrif ddyletswydd yr awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal o dan adran 78 o Ddeddf 2014.

Pennod 2: Diwygiadau yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol

Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: cofrestru etc. darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae adran 14 yn diwygio Deddf 2016 i newid y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (AGC) i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol, ac yn lle hynny mae'n **gosod y ddyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau eu hunain**. Mae hefyd yn newid y Ddeddf fel bod methu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser a ragnodir yn drosedd.

Mae adran 15 yn diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gyda chais i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth.

Mae adran 16 yn diwygio Deddf 2016 ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru (AGC) i ganslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth heb gais, drwy **newid y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn**. Mae'n darparu bod rhaid dilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig (yn hytrach na'r weithdrefn hysbysiad gwella), o dan rai amgylchiadau pan na fo unrhyw welliant yn bosibl.

Mae adran 17 yn diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig anghofrestredig ddarparu gwybodaeth.

Gweithwyr gofal cymdeithasol: cofrestru ac addasrwydd i ymarfer

Mae adran 18 yn diwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau **ychwanegu gweithwyr gofal plant at y rhestr o weithwyr sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol, neu eu heithrio o'r rhestr honno**, at ddibenion Rhannau 3-8 o Ddeddf 2016.

Mae Adran 19 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gorchmynion interim ac adolygiadau mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gorchmynion interim yn golygu y gellir gosod cyfyngiadau dros dro ar berson cofrestredig tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal i honiadau ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i banel estyn gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis, gan ddileu'r angen i wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Cyntaf ar gyfer estyniadau o'r fath.

Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol

Mae adran 20 yn diwygio Deddf 2014 i ategu'r ffyrdd y gall awdurdod lleol ddarparu taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu mewn perthynas â gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r diwygiadau'n **galluogi taliadau uniongyrchol i drydydd parti addas sydd wedi ei enwebu gan yr unigolyn** (oedolyn, plentyn neu ofalwr), ni waeth a oes gan yr unigolyn hwnnw alluedd meddyliol ai peidio (yn unol ag ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i gael a rheoli'r taliadau uniongyrchol eu hunain.

Mae adran 21 yn diwygio Deddf 2014 i egluro cwmpas cyfeiriadau yn yr adrannau hynny at 'orchymyn trefniadau plentyn'. Mae'r diwygiadau'n egluro bod y cyfeiriad at orchymyn trefniadau plentyn yn ymwneud â gorchmynion sy'n enwi'r person y mae'r plentyn i fyw gydag ef yn unig.

Mae adran 22 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ôl y Memorandwm.

Rhan 2: Gofal iechyd

Mae adran 23 **yn rhoi trosolwg o Ran 2**. Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") a Deddf Iechyd Meddwl 1983 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion yn lle darparu gwasanaethau gan y GIG neu ar ran y GIG i ddiwallu eu hanghenion.

Mae adran 24 yn **gwneud darpariaeth i ganiatáu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd** (i sicrhau gwasanaethau neu nwyddau a ddarperir o dan Ddeddf 2006 neu wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae'r diwygiadau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch a ellir gwneud taliadau uniongyrchol ai peidio, pryd a sut y gelir eu gwneud, a'r wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth a ddarperir mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol.

Mae adran 25 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ôl y Memorandwm.

Mae adran 26 yn diwygio Deddf 2014 i ymgorffori'r prawf statudol llawn a ddefnyddir i bennu terfyn pwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

Rhan 3: Cyffredinol

Mae adran 27 yn nodi'r dehongliadau cyffredinol o ran y Deddfau a grybwyllir yn y Bil.

Mae adran 28 yn ymdrin â darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol y caniateir eu gwneud drwy reoliadau.

Mae adran 29 yn nodi pryd y daw darpariaethau gwahanol yn y Bil i rym.

Mae adran 30 yn nodi enw byr y Bil (y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)).

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Blaenoriaethau'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol – 6 Mehefin 2024

Trosolwg

Mae'r papur hwn yn amlinellu blaenoriaethau portffolio allweddol y Gweinidog Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2024/25 a thu hwnt.

Crynodeb

Mae gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn un o'r gwasanaethau pwysicaf a ddarperir i filoedd o bobl bob dydd. Fodd bynnag, fel portffolios eraill y llywodraeth, rydym yn parhau i brofi cyfnod heriol o alw cynyddol, pwysau ar y sector a chyllid cyfyngedig.

Mae'r papur canlynol yn rhoi manylion y prif flaenoriaethau allweddol rydym yn bwriadu mynd i'r afael â nhw dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Mae'r rhain yn amrywio o flaenoriaethau cenedlaethol ehangach, sydd â'r nod o gryfhau a chefnogi'r sector cyfan; i flaenoriaethau mwy penodol sy'n targedu elfennau penodol o'n sector megis gwasanaethau plant a llwybrau gofal.

Yn ogystal â manylion ein nodau a'n hamcanion ym mhob un o'r blaenoriaethau hyn, rydym wedi tynnu sylw hefyd at y cymorth, y cyfleoedd a'r heriau fydd yn cael effaith ar ein llwybr at gyflawni.

Blaenoriaethau Allweddol

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Rwy'n falch fy mod wedi cyflwyno'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'r Senedd yn gynharach yr wythnos hon. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i gyfyngu ar dynnu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, i alluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a sicrhau bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gallu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.

Rwy'n hynod ddiolchgar am yr holl waith y mae fy rhagflaenydd uniongyrchol Julie Morgan, y cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford, wedi'i wneud ar y Bil hwn. Ymgynghorodd y llywodraeth ar y cynigion yn 2022 hefyd ac mae'r Bil wedi'i lywio gan yr ymatebion a dderbyniwyd.

Mae'r darpariaethau'n gweithredu ein cred hirsefydlog na ddylai fod marchnad ar gyfer gofal i blant, ac na ddylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau. Mae hyn yn golygu mai sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw fydd yn darparu gofal preswyl, llety diogel a gofal maeth i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i reoli'r broses o bontio i'r dull hwn hefyd.

Bydd y Bil hefyd yn diwygio Deddf y GIG (Cymru) 2006 hefyd i ganiatáu i Weinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol wneud taliadau uniongyrchol i unigolion. Mae'r llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â gofal iechyd parhaus y GIG, fel y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu gwneud taliadau uniongyrchol

i unigolion sydd ag angen iechyd sylfaenol ac sydd â hawl i dderbyn gofal iechyd parhaus. Bydd hyn yn galluogi unigolion i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig ar gyfer gofal iechyd, yn hytrach na derbyn gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn galluogi unigolion i gael mwy o ddewis o ran sut, a chan bwy, y darperir eu gofal.

Bydd y Bil yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau hefyd i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn adeiladu ar brofiad o sut mae'r Deddfau hyn wedi gweithredu ers iddynt gael eu rhoi ar waith a dylent eu helpu i weithredu'n llawn ac yn effeithiol.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil yn ystod y misoedd nesaf.

Trawsnewid Gwasanaethau Plant

Ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru yw cynorthwyo plant i aros gyda'u teuluoedd ac i lai o blant a phobl ifanc fynd i mewn i ofal, drwy ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i deuluoedd sy'n wynebu cyfnodau anodd.

Hoffem sicrhau bod plant sydd mewn gofal yn aros yn agos at eu cartrefi er mwyn parhau i fod yn rhan o'u cymuned, parhau yn eu hysgolion ac yn agos at eu grwpiau ffrindiau. Mae'n rhaid i ni ddarparu dull amlasiantaethol o ofalu am bob plentyn neu berson ifanc sy'n diwallu eu hanghenion orau. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni'r weledigaeth hon ac rwy'n credu'n gryf mai'r rhaglen drawsnewid rydym wedi'i rhoi ar waith yw'r un iawn a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud eisoes.

Mae profiad byw plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wrth wraidd popeth rydym wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud. Dyna pam rydym wedi gweithio'n agos gyda Voices from Care i drefnu cyfres o Uwchgynadleddau Pobl sy'n gadael Gofal. Mae'r Uwchgynadleddau hyn wedi rhoi cyfle i Weinidogion glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal am eu profiadau a'u barn ar ba newidiadau sydd angen eu gwneud.

Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni'r ymrwymïadau a nodir yn natganiad yr Uwchgynhadledd Profiad o Ofal, y gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig. Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni'r weledigaeth a amlinellwyd gan y llysgenhadon ifanc a bydd y Prif Weinidog yn llofnodi'r datganiad eto i gadarnhau ein hymrwymiad i'w gyflawni.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Y Fframwaith fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, gan ategu gweithdrefnau Cymru gyfan eraill, fel gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan. Cynhaliwyd proses ymgysylltu ar y 6 safon gyntaf yn gynharach eleni ac ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd, disgwylir i'r Fframwaith terfynol gael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddileu elw o ofal ac rydym wedi cyflwyno'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae dileu yn llawer mwy na modelau perchnogaeth ac elw, mae'n ymwneud ag adeiladu gwytnwch yn y sector, diwallu

anghenion gofal a chymorth ein pobl ifanc yn y ffordd orau, eu cadw o fewn eu cymunedau a gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i fod gyda'u teuluoedd.

Lansiwyd y Siarter Rhianta Corfforaethol ym mis Medi y llynedd. Hyd yma, mae 35 o sefydliadau wedi cofrestru gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru. Rydym yn parhau i annog pob corff cyhoeddus yn ogystal â chyrrff preifat a'r trydydd sector ledled Cymru i gofrestru a dod yn Rhieni Corfforaethol.

Rhwng 2021 a 2023 defnyddiwyd cyfanswm o £3.5m o gyllid Llety Rhanbarthol gan 15 o brosiectau ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Arweiniodd hyn at greu 26 o welyau newydd o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a darparwyd cymorth i 62 o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Ers hynny, rydym wedi dyrannu dros £23m yn y maes hwn ac yn parhau i dderbyn cynigion drwy'r Gronfa Tai â Gofal. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o 96 o welyau eraill, ac o'r rhain, mae 5 cartref eisoes ar waith gyda 15 gwely. Yn ategu'r dull hwn, mae Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys buddsoddiad sylweddol o tua £18m y flwyddyn i gynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n helaeth yn Maethu Cymru hefyd, ein cynllun maethu cenedlaethol, er mwyn gwella gallu gwasanaethau maethu awdurdodau lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth prif ffrwd, a thrwy Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru rydym yn gweithio i sicrhau bod pecyn hyfforddiant, cefnogaeth a chymorth ariannol ar gael yn gyson i bob gofalwr maeth sy'n berthynas ym mhob un o'r 22 asiantaeth faethu awdurdod lleol yng Nghymru.

Dyma ddechrau'r daith, a byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein gwaith yn gyson i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan bobl ifanc wrth gyd-fynd â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae elfennau gwahanol o waith ar raddau gwahanol o aeddfedrwydd, ac rwy'n hyderus y byddant yn sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod ac yn dathlu ymrwymiad ac angerdd ein gweithlu ymroddedig. Ein gweithlu gofal cymdeithasol yw ein hased mwyaf. Rydym am wella gwasanaethau yng Nghymru yn unol â [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#) a chynllun [Cymru Iachach](#) Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, i ddarparu gofal yn nes at y cartref a gwella ansawdd y cymorth i blant ac oedolion o bob oed.

Cafodd y pandemig effaith aruthrol ar y gweithlu a'n cymunedau, yn enwedig i bobl sy'n dibynnu ar ofal a chymorth o ansawdd da a'u gofalwyr. Mae mwy o bwysau ar y sector oherwydd gofynion cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio a disgwyliad oes uwch, ynghyd â gostyngiad yn y rhai o oedran gweithio. Mae'r ddau ffactor hyn gyda'i gilydd yn her allweddol ar gyfer sut rydym yn cydbwyso gallu'r gweithlu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth. O'n categorïau gweithlu rydym yn gwybod bod 23% o'n gweithlu dros 55 oed.

Rydym wedi ymrwymo i godi proffil a statws y gweithlu trwy gofrestru'r gweithlu a gwella cyflogau, amodau a thelerau ar gyfer y sector pwysig hwn. Mae ein rhaglenni gwaith, buddsoddi a gweithio gyda rhanddeiliaid, yn targedu ein gweledigaeth o weithlu cydnerth a sefydlog drwy ganolbwyntio ar recriwtio, cadw ac adeiladu gweithlu cadarn.

- **Recriwtio** – Canolbwyntio ar recriwtio gofal cymdeithasol heddiw, tra'n sicrhau ein bod yn adeiladu ein gweithlu gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol.
- **Cadw** – Mae angen i ni sicrhau bod ein gweithlu'n ystyried gofal cymdeithasol fel gyrfa am oes a all ddiwallu gwahanol anghenion a dyheadau gyrfa unigol.
- **Cydnherhedd** – Byddwn yn canolbwyntio ar greu'r amgylchedd cywir ar gyfer ymarfer gofal cymdeithasol trwy gefnogaeth llesiant a gwelliannau technolegol sy'n lleihau'r galw dyddiol ar ein gweithlu.

Mae ein cyllid drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu galluogi i ddarparu arweinyddiaeth ac arbenigedd cenedlaethol mewn gofal cymdeithasol, gan arwain ar ddatblygu a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, data ac ymchwil i wella gofal a chymorth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid sector a thrwy ymgynghori â'r gweithlu wedi arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2024-27 gan ganolbwyntio ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac yn amlinellu meysydd datblygu pellach yn seiliedig ar ymgysylltu â'r sector. Cyhoeddwyd y cynllun cyflawni drafft ar gyfer ymgynghoriad yn 2023, gan sicrhau bod llais y gweithlu, rhanddeiliaid a'r rhai sy'n derbyn gofal yn llywio'r cynnwys yn uniongyrchol. Bydd y cynllun cyflawni hwn, a gaiff ei gyhoeddi cyn hir, yn cyflwyno casgliad eang o gamau gweithredu i adeiladu ar y momentwm sydd eisoes wedi dechrau.

Mae ein grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy o £45m yn cefnogi casgliad eang o ymyriadau gweithlu. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid er mwyn helpu i gynyddu cyflogau, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl.

Mae ein buddsoddiad yn y bwrsari i weithwyr cymdeithasol wedi sbarduno cynnydd yn y nifer sy'n manteisio arno yn 2023-24 o gymharu â 2022-23. Mae'n gam cadarnhaol yn y daith o ran sicrhau bod gennym ddigon o weithwyr cymdeithasol cymwysedig. Byddwn yn adolygu'r gwaith codi ymwybyddiaeth, buddsoddi a thelerau'r bwrsari ar hyn o bryd i ystyried sut allwn ni gryfhau hyn ymhellach wrth symud ymlaen. Mae cyllid drwy Ofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi amryw o feysydd gwaith, gan gynnwys 'tyfu'ch cynllun eich hun' yr awdurdodau lleol sy'n cefnogi cyflogaeth am dâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol a ariennir.

Gwyddom fod sawl "academi gofal" leol ledled Cymru'n cynnig cyfleoedd i ennill wrth ddysgu, gan roi cyfle i hyfforddeion gael blas ar yrfaedd gwahanol ym maes gofal oedolion a phlant, wrth astudio ar gyfer cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut allwn ni gefnogi'r mentrau hyn ymhellach.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi bod yn ystyried sut i ddatblygu model unigryw ar ffurf 'Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yma yng Nghymru. Rydym yn symud i drydedd flwyddyn ariannol ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae cyllid i gefnogi awdurdodau lleol i barhau i dalu'r costau ychwanegol o gyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal wedi'i gynnwys yn y setliad Llywodraeth Leol.

Mae llesiant y sector yn flaenoriaeth a dylai fod yn sail i'n holl bolisiau. Yn ddiweddar, fe wnaethom ni ymestyn y cynnig cymorth iechyd meddwl am ddim (Canopi) i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn hytrach nag i weithwyr iechyd yn unig. Mae Canopi wedi gweld cynnydd yn nifer y staff gofal cymdeithasol sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac sy'n cysylltu â phroblemau mwy cymhleth. Felly, rydym yn ystyried sut allwn ni gynorthwyo Canopi ymhellach i ddarparu'r cynnig llawn i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Cymorth gan Gyfoedion BASW yn cynnig cymorth rhad ac am ddim i weithwyr cymdeithasol, gan ganiatáu iddyn nhw reoli problemau cysylltiedig â gwaith, a datblygu eu gyrfa drwy gael cyngor a chefnogaeth gan gydweithwyr cymdeithasol mwy profiadol.

Sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol

Ar ôl penodi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru ar ddechrau'r tymor llywodraeth hwn, dechreuodd y gwaith i sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Wedi'i ddatblygu fel rhan o'r rhaglen Ailgydbwysio Gofal a Chymorth, ffurfiwyd Grŵp Llywio er mwyn helpu i ddatblygu a sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol a oedd yn cynnwys aelodaeth o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, ac roedd yn cyfarfod yn rheolaidd dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol.

Cynghorodd y Grŵp Llywio ar swyddogaethau arfaethedig y Swyddfa Genedlaethol, a fu'n destun ymgynghoriad wedyn fel rhan o'r Ymgynghoriad ar Ailgydbwysio Gofal a Chymorth ehangach yn haf 2023. Daeth 90 a mwy o ymatebion i law, ac fe'u dadansoddwyd yn drylwyr, gyda'r Adroddiad Crynodeb o Ymatebion yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd 2023.

I grynhoi, penderfynwyd y byddai gan y Swyddfa Genedlaethol dair swyddogaeth graidd. Ymgynghorwyd ynghylch y rhain fel rhan o'r rhaglen Ailgydbwysio ehangach. Y swyddogaethau craidd y cytunwyd arnynt yw:

1. rheoli trosolwg o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth;
2. datblygu, gweithredu a darparu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn barhaus;
3. a chyflawni swyddogaethau'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol.

Sefydlwyd Grŵp Arbenigol gan Weinidogion gyda'r rôl o baratoi argymhellion ar gamau ymarferol y gellir eu cymryd tuag at uchelgais a rennir o greu **Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol** sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Bu'r grŵp yn cyfarfod rhwng mis Chwefror a mis Medi 2022 gyda'r bwriad o gytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023.

Lluniodd y Grŵp Arbenigol adroddiad terfynol trylwyr a manwl gyda 46 o argymhellion pellgyrhaeddol ar sut y gellid datblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol gyda nifer o'r

argymhellion hynny'n cyd-fynd â'r agenda ar gyfer diwygio'r sector cymdeithasol.

Gan nodi'r sefyllfa ariannol hynod heriol, mae swyddogion wedi gweithio gyda Gweinidogion i ddatblygu cynllun Gweithredu Cychwynnol tri cham. Mae cael cynllun gweithredu graddol yn dal i fod yn gydnaws â'r cynnig a wnaed gan y Grŵp Arbenigol, sef y byddai angen cynllun cyflawni graddol am o leiaf deng mlynedd er mwyn cyflawni uchelgais lawn yr adroddiad.

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cychwynnol hwn ar 14 Rhagfyr 2023 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i symud ymlaen gyda gweithgareddau Cyfnod 1 megis penodi Rheolwr Rhaglen yn ddiweddar, a datblygu Dogfen Cychwyn Rhaglen a bwrdd rhaglen.

Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth
Trwy ein Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth ein nod yw sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, cryfhau trefniadau partneriaeth ranbarthol a chreu Swyddfa Gofal a Chymorth Genedlaethol a fydd yn goruchwyllo ac yn cefnogi gweithrediad a rheolaeth y Fframwaith Cenedlaethol.

Nod y rhaglen drawsnewidiol hon yw ein symud yn nes at gyflawni'r weledigaeth o sicrhau canlyniadau a llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei sefydlu drwy God Ymarfer statudol a bydd yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd yn pennu egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu gyda'r nod o leihau cymhlethdodau, hwyluso cysondeb cenedlaethol mewn arferion comisiynu ac ailgydbwysu comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Mae datblygu a gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn gam pwysig tuag at adeiladu'r sylfeini angenrheidiol ar gyfer cyflawni Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Mae darparu'r Fframwaith Cenedlaethol yn un o dair rhan y Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth. Os caiff ei weithredu'n llwyddiannus, bydd y Fframwaith yn ein helpu i symud yn agosach at gyflawni ein gweledigaeth, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o sicrhau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth.

Bydd y pecyn cymorth rydym yn ei ddatblygu er mwyn helpu i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi comisiynwyr i weithredu'r Cod yn effeithiol trwy gyflawni eu swyddogaethau statudol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth.

Mae natur hyblyg, anstatudol a chydweithredol y pecyn cymorth yn golygu y gallwn - wrth i'r dirwedd gomisiynu esblygu a'r dystiolaeth ddatblygu ar gyfer effeithiolrwydd y Cod wrth wireddu ein nodau i ailgydbwysu gofal a chymorth – gyflwyno offer ychwanegol ac addasu adnoddau presennol yn ôl yr angen yn gyflym ac yn effeithlon i sicrhau bod y pecyn cymorth yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Yn yr un modd, mae ein dull o adolygu a diweddarau'r Cod bob dwy flynedd yn golygu y gallwn sicrhau ein bod yn addasu'r Fframwaith yn barhaus er mwyn cyrraedd ein nodau cyffredinol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn helpu i wneud hyn drwy roi sylw i'r Fframwaith a helpu i godi proffil gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i ymgynghoriad Ailgydbwysio Gofal a Chymorth 2023 yn rhoi adborth cadarnhaol ar y Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig ac yn helpu i gryfhau bwriad a chyfeiriad polisi ein cynigion ailgydbwysio. Fodd bynnag, codwyd rhai problemau a heriau yn yr ymgynghoriad, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, cyllid a rhwystrau i weithredu'r Fframwaith yn effeithiol a gwireddu ei nodau.

Treuliodd fy swyddogion amser sylweddol yn dadansoddi'r ymatebion ac ystyried yn fanwl sut y dylai'r Cod terfynol edrych yng ngoleuni'r holl awgrymiadau defnyddiol a wnaed. Rydym wedi ceisio cydbwysu'n rhesymol yr hyn y gellir ei gyflawni trwy'r fersiwn gyntaf hon a'r hyn y gellir ei gyflawni'n fwy priodol a hyblyg trwy ei weithredu a swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol.

Er nad oes modd datrys heriau parhaus y sector gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â chyllid, y gweithlu a darpariaeth integredig ar ei ben ei hun trwy gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol, mae'n caniatáu i ni symud tuag at ffordd fwy cyson o gomisiynu gofal a chymorth fel cenedl. Bydd y Fframwaith yn helpu i gyfrannu at sut mae'r system gofal cymdeithasol gyffredinol yng Nghymru yn gweithio fel y'i sefydlwyd drwy'r Ddeddf, y Codau a'r rheoliadau a'r canllawiau drwy ddod â phartneriaid i'r un lefel ledled Cymru.

Gan fod y Cod yn berthnasol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd, mae'n gyfle gwych i gryfhau dulliau gweithio integredig a phartneriaeth yn enwedig o ystyried sut mae'n cyd-fynd â Chod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a Chanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth sydd wrthi'n cael eu diweddarau i gryfhau gweithio mewn partneriaeth.

Talu am Ofal

Gwnaed gwaith i gynnal diweddariad blynyddol o'r isafswm incwm sy'n ymwneud â gofal preswyl sy'n dod i rym ddechrau Ebrill 2024. Byddwn yn adolygu hyn eto er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad yn parhau ar godi'r cap gofal amhreswyl presennol o £100 i £120 yr wythnos. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Mai. Mae Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Tâl ac Asesu Ariannol) yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn seiliedig ar newidiadau blynyddol i ddeddfwriaeth sydd wedi'u cwblhau a'r newidiadau posibl sydd eu hangen o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Mae'r gwaith ar gynnal ymchwil yn unol â gweithgareddau Cam 1 y Cynllun Gweithredu Cychwynnol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r Swyddfa Genedlaethol, mae gennym gyfle i edrych ar ofynion ariannu gweithio tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol, sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.

Un o nodweddion allweddol y Swyddfa Genedlaethol fydd cynnal goruchwyliaeth o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a sbarduno trawsnewid a chysondeb drwy weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a'r sector.

